Rhan E – Cyfuno pleidleisiau

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Trefniadau cyfuno
- Wedi'u cyfuno neu heb eu cyfuno
- Gohirio unrhyw bleidlais mewn etholiadau cyngor plwyf neu gymuned yng Nghymru a Lloegr
- Y Swyddogion Canlyniadau
- Amserlenni

3 Yr etholfraint

4 Pleidleisiau drwy'r post
- Cyfuno cyflwyno pleidleisiau drwy'r post
- Cyflwyno pleidleisiau drwy'r post ar wahân
- Dogfennaeth pleidleisio drwy'r post arall

5 Hysbysiadau a blychau pleidleisio
- Hysbysiad y bleidlais
- Cardiau pleidleisio
- Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio
- Blychau pleidleisio

6 Y bleidlais
- Marcio'r gofrestr
- Rhestri rhifau cyfatebol
- Marc swyddogol ar bapurau pleidleisio
- Dychwelyd pleidleisiau drwy'r post i orsafoedd pleidleisio
- Cau'r bleidlais

7 Y cyfrif ac ar ôl y cyfrif
- Presenoldeb asiantau cyfrif
- Y weithdrefn ddilysu a'r cyfrif
- Marwolaeth ymgeisydd
- Treuliau

1 Cyflwyniad

1.1 Mae darpariaethau penodol mewn deddfwriaeth etholiadol i ymdrin â chyfuno'r bleidlais mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU gyda phleidlais mewn etholiad arall.

Dylid nodi hefyd y bydd yr etholaethau Seneddol DU newydd yn dod i rym gyda diddymu Senedd y DU, a byddant yn cynnwys wardiau llywodraeth leol cyfan. O ganlyniad mae'r ffiniau newydd yn golygu y bydd mwy fyth o etholaethau Seneddol y DU yn croesi dau awdurdod lleol, fydd yn gofyn am berthnasau gwaith agos iawn rhwng Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a thimau etholiad yr awdurdodau lleol perthnasol.

1.2 Mae'r rhan hon yn ystyried materion ynghylch cyfuno posib, yn cynnwys rôl y Swyddogion Canlyniadau yn y gwahanol etholiadau, ac yn amlygu meysydd i'w hystyried fel effaith cyfuno ar brosesau pleidleisio drwy'r post, pleidleisio a chyfrif.

Amlygir canllawiau ychwanegol sy'n mynd i'r afael â materion cyfuno sy'n berthnasol i Swyddogion Canlyniadau drwy gydol y llawlyfr hwn mewn blwch fel hwn, gydag ebychnod ⓘ a phennawd sy'n dweud 'Cyfuno'.

1.3 Mae'r ddeddfwriaeth allweddol ynghylch y trefniadau ar gyfer cyfuno'r bleidlais mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU gyda hynny mewn etholiad arall wedi'i nodi yn:

- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2006 a 2007)
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 1986
- Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop 2004 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Senedd Ewrop (Diwygiad) 2009), Atodlen 3: Addasu Rheolau Etholiadau Senedd Ewrop ar gyfer Pleidleisiau Cyfunol
- Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006, Atodlen 3: Rheolau ar gyfer Cynnal Etholiadau Cynghorwyr Prif Ardal lle cynhelir y bleidlais ynghyd â'r bleidlais mewn Etholiad neu Refferendwm perthnasol
- Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban 2007, Atodlen 2: mae addasiadau i'r rheolau etholiadau llywodraeth leol yn Atodlen 1 yn gymwys lle y cynhelir y bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol ynghyd â'r bleidlais mewn etholiad arall o dan Adran 15(1) neu (2) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985
- Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006, Atodlen 3: Rheolau ar gyfer Cynnal Etholiad o gynghorwyr Plwyf neu Gymuned lle y cynhelir y bleidlais ynghyd â'r bleidlais mewn Etholiad neu Refferendwm perthnasol.

1.4 Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnig manylion cyfuno etholiad Seneddol y DU ag is-etholiad Seneddol Ewropeaidd, etholiad i Awdurdod Llundain Fwyaf, na refferendwm ar drefniadau gweithredol awdurdodau lleol.

2 Trefniadau cyfuno

Cyfuno neu heb eu cyfuno

2.1 Mae nifer o achlysuron lle mae'n **rhaid** cyfuno'r pleidleisiau mewn gwahanol etholiadau a gynhelir ar yr un diwrnod, lle y **gellir** eu cyfuno a lle **na ellir** eu cyfuno. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

2.2 Amgylchiadau lle mae'n **rhaid** cyfuno pleidleisiau:

- etholiadau cyngor plwyf a chyngor dosbarth (lle mae'r plwyf neu ward y plwyf yn cyd-ffinio â neu wedi'i leoli o fewn ward y cyngor dosbarth)
- etholiadau cyngor cymuned ac etholiadau cyngor sir neu fwrdeistref sirol (os yw'r etholiadau ar gyfer ardaloedd etholaethol cysylltiedig)
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad cyffredinol Senedd Ewrop
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad llywodraeth leol arferol
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad llywodraeth leol arferol
- etholiad cyffredinol Senedd yr Alban ac etholiad llywodraeth leol arferol
- etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiad llywodraeth leol arferol

2.3 Amgylchiadau lle y **gellir** cyfuno pleidleisiau:

- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac is-etholiad Senedd Ewrop
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad swydd wag dros dro cyngor plwyf neu gymuned (lle nad yw diwrnod y pleidleisio yr un peth â'r diwrnod pleidleisio arferol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol)
- is-etholiad Seneddol y DU ac is-etholiad Senedd Ewrop
- is-etholiad Seneddol y DU ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol (lle nad yw diwrnod y pleidleisio yr un peth â'r diwrnod pleidleisio arferol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol)
- is-etholiad Seneddol y DU ac etholiad swydd wag dros dro cyngor plwyf neu gymuned (lle nad yw diwrnod y pleidleisio yr un peth â'r diwrnod pleidleisio arferol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol)
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac is-etholiad Seneddol y DU
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad swydd wag dros dro cyngor plwyf neu gymuned
- is-etholiad Senedd Ewrop ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol (lle nad yw diwrnod y pleidleisio yr un peth â'r diwrnod pleidleisio arferol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol)
- is-etholiad Senedd Ewrop ac etholiad swydd wag dros dro cyngor plwyf neu gymuned (lle nad yw diwrnod y pleidleisio yr un peth â'r diwrnod pleidleisio arferol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol)

- etholiad cyffredinol Senedd yr Alban ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol
- is-etholiad Senedd yr Alban ac etholiad llywodraeth leol arferol
  is-etholiad Senedd yr Alban ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol (os yw'r etholiadau ar gyfer ardaloedd cysylltiedig)
- etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol
- is-etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiad llywodraeth leol arferol
- is-etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiad swydd wag dros dro llywodraeth leol (os yw'r etholiadau ar gyfer ardaloedd cysylltiedig)

2.4 Amgylchiadau lle **na ellir** cyfuno'r pleidleisiau:

- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad cyngor plwyf neu gymuned lle mae diwrnod y pleidleisio yr un peth â diwrnod etholiad arferol cynghorwyr dosbarth, h.y. dydd Iau cyntaf mis Mai
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad cyngor plwyf neu gymuned lle mae diwrnod y pleidleisio yr un peth â diwrnod etholiad arferol cynghorwyr dosbarth, h.y. dydd Iau cyntaf mis Mai
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad cyffredinol Senedd yr Alban
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac is-etholiad Senedd yr Alban
- etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac is-etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad cyffredinol Senedd yr Alban
- is-etholiad Seneddol y DU ac etholiad cyffredinol Senedd yr Alban
- is-etholiad Seneddol y DU ac is-etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- is-etholiad Seneddol y DU ac is-etholiad Senedd yr Alban
- is-etholiad Seneddol y DU ac is-etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad cyffredinol Senedd yr Alban
- etholiad cyffredinol Senedd Ewrop ac etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- is-etholiad Senedd Ewrop ac etholiad cyffredinol Senedd yr Alban
- is-etholiad Senedd Ewrop ac etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- is-etholiad Senedd Ewrop ac is-etholiad Senedd yr Alban
- is-etholiad Senedd Ewrop ac is-etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2.5 Yn yr amgylchiadau lle y gellir cyfuno pleidleisiau, swyddogaeth Swyddogion Canlyniadau yr ardaloedd perthnasol yw cytuno ei fod ymarferol cyfuno'r pleidleisiau. Un o'r materion allweddol i'w ystyried fydd cost, gan y bydd fwy na thebyg yn fwy cost-effeithiol i gynnal y pleidleisiau wedi'u cyfuno

yn hytrach nag ar wahân. Yna dylid rhannu'r costau'n gyfartal rhwng yr etholiadau, ac eithrio pan y gellir priodoli unrhyw gost benodol, fel argraffu papurau pleidleisio, i un etholiad yn unig. Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid cyfuno ai peidio pan nad yw'n ofynnol dan y gyfraith fod yn seiliedig ar gost a materion gweinyddol yn unig, ond dylai hefyd ystyried effaith y cyfuno ar bleidleiswyr. Bydd y Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau yn egluro sut y dylid ymdrin â chostau mewn etholiad cyfunol.

Gohirio unrhyw bleidlais mewn etholiadau cyngor plwyf neu gymuned yng Nghymru a Lloegr

Os cyhoeddir etholiad cyffredinol Seneddol y DU ar gyfer diwrnod arferol etholiadau ar gyfer cynghorwyr ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i unrhyw bleidlais mewn etholiad cynghorwyr plwyf neu gymuned i'w chynnal ar y diwrnod hwnnw gael ei gohirio am dair wythnos. Mae hyn yn cynnwys etholiadau diwrnod 'arferol' ac etholiadau i lenwi swyddi gwag dros dro ar y diwrnod hwnnw.

2.6 Mewn sefyllfa lle mae amserlen yr etholiad ar gyfer yr etholiadau plwyf neu gymuned wedi cychwyn cyn i etholiad cyffredinol Seneddol y DU gael ei gyhoeddi, dylid ailgyfrifo'r amserlen etholiad bresennol gan ddefnyddio diwrnod newydd yr etholiad er mwyn diwygio terfynau amser, ond bydd unrhyw gamau a gymerwyd hyd at y pwynt hwnnw yn parhau'n ddilys.

2.7 Mae hyn yn seiliedig ar y ddarpariaeth yn Adran 16(1)(b) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985,[1] sy'n datgan 'the date to which any such poll is so postponed shall be taken to be the ordinary day of election for the purposes of Sections 16(3) and 35(2) of the Local Government Act 1972 and the day of election for the purposes of any rules concerning the conduct of elections of such councillors…'.

2.8 Yn ymarferol, argymhellir y dylid cyhoeddi'r gohiriad drwy gyhoeddi hysbysiad etholiad newydd gyda dyddiad y bleidlais newydd, a'r terfynau amser newydd ar gyfer cofrestru a derbyn ceisiadau pleidleisio absennol.[2]

2.9 Mewn perthynas ag enwebiadau, gan fod dyddiad y bleidlais wedi'i ohirio ac nid ei ganslo, mae unrhyw bapur enwebu sy'n ddilys ar gyfer yr etholiad gwreiddiol yn parhau'n ddilys ar gyfer y bleidlais newydd. Mae'r broses enwebu, yn cynnwys y terfynau amser, yn aros yn ddigyfnewid o ganlyniad i ohirio'r bleidlais.

2.10 Lle mae pleidlais cyngor plwyf neu gymuned yn cael ei gohirio, mae'r costau a briodolir i'r gohirio yn daladwy o'r Brif Gronfa Wladol.[3]

[1] Adran 16(1)(a), RPA 1985.
[2] Yn unol â Rheol 3, Atodlen 2, Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 2006.
[3] Adran 16(1)(c), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.

Dylid felly gwneud unrhyw hawliadau am wariant nad oedd modd ei osgoi ac a briodolir yn llwyr i'r gohirio i'r Uned Hawliadau Etholiadau lle y gwneir yr hawliad am dreuliau. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn a briodolir yn llwyr i'r gohiriad ai peidio, dylid cysylltu â'r Uned Hawliadau Etholiadau am gyngor.

Y Swyddogion Canlyniadau

2.11 Lle mae pleidleisiau wedi'u cyfuno, bydd yna mewn rhai achosion wahanol Swyddogion Canlyniadau ar gyfer pob pleidlais, er mewn llawer o achosion yr un person fydd y Swyddog Canlyniadau. Ysgrifennwyd y canllawiau hyn fel pe bai dau Swyddog Canlyniadau gwahanol yn cymryd rhan. Lle, fodd bynnag, yr un Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am weinyddu'r ddwy bleidlais, bydd y camau a nodwyd yn amlwg yn berthnasol i'r person hwnnw.[4]

2.12 Bydd cyfrifoldeb dros nifer o'r camau gofynnol yn aros gyda Swyddog Canlyniadau'r prif etholiad, e.e. os cyfunir etholiad cyffredinol Seneddol y DU ag etholiad llywodraeth leol, bydd rhan fwyaf o swyddogaethau pob etholiad yn gyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). **Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai'r pleidleisiau sy'n cael eu cyfuno, ac nid pob agwedd ar yr etholiadau.**

2.13 Y swyddogaethau mewn pleidlais gyfunol a ddaw'n gyfrifoldeb y prif Swyddog Canlyniadau yw:

- hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- cyflwyno papurau pleidleisio drwy'r post (lle y penderfynwyd y dylid cynnal cyflwyno a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post mewn perthynas â'r ddau etholiad gyda'i gilydd – gweler isod)
- darparu gorsafoedd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- cyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- rhoi'r hysbysiad am y gofyniad am gyfrinachedd mewn gorsafoedd pleidleisio
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth
- yr awdurdod i orchymyn symud personau o orsafoedd pleidleisio
- gwahanu a chyfrif papurau pleidleisio (mae cyfrif yn yr ystyr hwn yn golygu dilysu yn erbyn y cyfrifon papurau pleidleisio ac nid cyfrif y pleidleisiau - ar ôl i'r dilysu gael ei gwblhau, mae'r papurau ar gyfer yr etholiad arall yn cael eu selio i ffwrdd tan fod y cyfrif hwnnw ar fin dechrau)

2.14 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi ac yn gwahanu cyfrifoldebau penodol pob Swyddog Canlyniadau mewn pleidleisiau cyfunol y mae'n rhaid, wrth gwrs, eu parchu. Fodd bynnag, dylid cael perthynas waith agos rhwng Swyddogion Canlyniadau a'u staff mewn perthynas ag ymgymryd â dyletswyddau yn

[4] Rheoliad 5, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2004; Rheoliad 96, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 1986.

gyffredinol. Er enghraifft, er bod y cyfrifoldeb ar gyfer darparu gorsafoedd pleidleisio a staff gorsafoedd pleidleisio ar gyfer yr etholiad cyfan yn aros gyda'r prif Swyddog Canlyniadau, yn ymarferol, os yw unrhyw ran o'r ardal etholiadol y tu allan i'w hardal arferol, mae'n debygol y bydd y Swyddog Canlyniadau a'i staff sy'n fwy cyfarwydd â'r ardal arbennig honno yn cynghori ac yn cynorthwyo'r prif Swyddog Canlyniadau yn ôl yr angen.

2.15 Dylid dod i gytundeb yn gynnar yn y cam cynllunio ynghylch dirprwyo priodol a phwy sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r amrywiol ddyletswyddau a orfodir gan y gyfraith, yn cynnwys sut y dylid gwneud hyn. Dylid cael cyd-gysylltu parhaus rhwng y Swyddogion Canlyniadau a'u haelodau staff perthnasol drwy gydol cyfnod yr etholiad.

Y nod yw sicrhau gwasanaeth cyson o ansawdd uchel ar draws yr ardal etholiadol. Felly, mae'n hanfodol i Swyddogion Canlyniadau a'u staff gydweithredu'n llwyr - gallai methu â gwneud hynny olygu bod canlyniad yr etholiad yn cael ei herio.

Amserlenni

2.16 Gall yr amserlen a ddefnyddir mewn etholiadau amrywio yn dibynnu ar y math o etholiad.

2.17 Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn cyd-daro ag amserlenni eraill. Gallai'r sefyllfa godi lle mae hysbysiad o etholiad ar gyfer etholiad llywodraeth leol wedi'i gyhoeddi gan ddechrau'r broses ac, hyd at bythefnos yn ddiweddarach, dosberthir gwrit ar gyfer etholiad Seneddol y DU yn dechrau'r etholiad hwnnw. Erbyn adeg derbyn y gwrit, bydd enwebiadau ar gyfer yr etholiad llywodraeth leol wedi cau a byddai'r datganiad o bersonau a enwebwyd ar fin cael ei gyhoeddi.

2.18 Mewn sefyllfa lle mae potensial ar gyfer etholiad cyfunol, argymhellir bod Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol):

- yn cynnwys yn eu prosesau cynllunio y materion sy'n effeithio ar etholiadau cyfunol
- yn rhoi gweithdrefnau yn eu lle gyda chontractwyr i amrywio unrhyw gontractau y gallent fod wedi'u cyd-drafod yn barod ac unrhyw Gytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n hanfodol i gynnal yr etholiadau yn effeithiol
- yn ystyried yr effaith ar y pleidleiswyr a'r ymgeiswyr ac asiantau
- yn adolygu eu hadnoddau a'u strategaeth hyfforddiant i nodi unrhyw fylchau yn eu tybiaethau cynllunio

3 Yr etholfraint

3.1 Nid yw'r etholfraint ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yr un peth ag ar gyfer etholiadau eraill.

3.2 Mewn etholiad cyfunol, gellir defnyddio'r un gofrestr etholwyr (a hysbysiadau o newidiadau i'r gofrestr o ganlyniad i gywiro gwallau clercyddol), ynghyd â'r un rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu, y rhestr o bleidleiswyr gydag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion a'r rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd, ar gyfer y ddau (neu bob) etholiad.[5]

3.3 Lle y cyfunir etholiad cyffredinol Seneddol y DU gydag etholiad arall, mae'n hanfodol bod staff gorsafoedd pleidleisio yn talu sylw arbennig i'r llythrennau dynodi yn ymyl enwau etholwyr. Mae'r llythrennau dynodi hyn yn nodi'r etholiad lle y cânt bleidleisio.

Mae'r mater hwn yn un pwysig mynd i'r afael ag ef yn ystod hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio. Ni ellir gor-ddweud yr angen am gyfarwyddiadau clir.

3.4 Er enghraifft, gall etholwyr tramor (gyda'r llythyren 'F' yn ymyl eu henwau) bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU ond nid mewn etholiadau llywodraeth leol, lle y gall dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (gyda naill ai'r llythyren 'G' neu 'K' yn ymyl eu henwau) bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ond nid etholiadau cyffredinol Seneddol y DU. Lle y bydd un gofrestr yn cael ei defnyddio ar gyfer y ddau etholiad, rhaid ystyried y marciau ger enwau etholwyr yn ofalus.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu llawlyfr gorsaf bleidleisio gyfunol a chanllaw cyflym yn cwmpasu etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, fydd yn cynnwys y marcwyr etholfraint perthnasol. Bydd Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn gallu lawrlwytho'r rhain o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Mae rhestr o farciau posib yn ymyl enwau etholwyr, ynghyd ag esboniad o gymhwysedd yr etholwyr hynny i bleidleisio, wedi'i gwmpasu yn Rhan B *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr.* Gallwch lawrlwytho'r llawlyfr o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services.

[5] Paragraffau 13–16, Atodlen 2, RPR 2004, fel y'i diwygiwyd; Rheoliad 98(9)–(12), Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 1986.

4 Pleidleisiau drwy'r post

4.1 Er y gallai fod yn fandadol i ddwy bleidlais ar yr un diwrnod gael eu cyfuno, gellir cyfuno cyflwyno a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post os yw'r holl Swyddogion Canlyniadau dan sylw yn cytuno.[6]

Cyfuno cyflwyno pleidleisiau drwy'r post

4.2 Os cyfunir cyflwyno a derbyn pleidleisiau drwy'r post, rhaid i rifau'r holl bapurau pleidleisio a gyflwynwyd i'r etholwr ymddangos ar y datganiad pleidleisio drwy'r post ac ar yr amlen papur pleidleisio 'A'. Yn ogystal, rhaid cyfeirio at liw'r papurau pleidleisio perthnasol yn y cyfarwyddiadau pleidleisio drwy'r post. Dylai enw'r etholaeth a'r ward ymddangos hefyd ar yr amlenni 'A' a 'B' fel gwybodaeth ychwanegol ar gyfer eu dosbarthu gan y Post Brenhinol neu i bleidleiswyr sy'n dychwelyd eu pleidleisiau drwy'r post i'r orsaf bleidleisio.

Cyflwyno pleidleisiau drwy'r post ar wahân

4.3 Os penderfynir cyflwyno a derbyn pleidleisiau drwy'r post ar wahân, mae'r newidiadau o'r weithdrefn etholiad unigol yn fach. Mae'r datganiadau pleidleisio drwy'r post i'w defnyddio ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth briodol.[7]

Dogfennaeth pleidleisio drwy'r post arall

4.4 Y ddogfennaeth arall a gynhyrchir wrth gyflwyno pleidleisiau drwy'r post yw rhestr rhifau cyfatebol, y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd (y'i defnyddir wedyn i gynhyrchu'r rhestr a farciwyd o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd) a'r datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post. Oherwydd bod yr etholfraint ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn wahanol i hynny ar gyfer etholiad llywodraeth leol ac felly efallai na fydd yr holl etholwyr sy'n pleidleisio drwy'r post yn gymwys i dderbyn y ddau bapur pleidleisio, mae'n arbennig o bwysig creu rhestri cywir o'r pleidleisiau drwy'r post a gyflwynwyd. At hynny, hyd yn oed os cyfunir y cyflwyno, mae angen cael datganiad ar wahân ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob etholiad.

[6] Rheoliad 65, RPR 2001.

[7] Atodlen 2, RPR 2001; Atodlen 3, RPR (yr Alban) 2001; Atodiad ffurflenni, Atodlen 2, Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006; Gorchymyn Diwygio Etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban 2009; Atodiad Ffurflenni, Atodlen 2, Rheoliadau Etholiadau Seneddol Ewrop 2004 (fel y'u diwygiwyd).

5 Hysbysiadau a blychau pleidleisio

Hysbysiad y bleidlais

5.1 Rhaid i hysbysiad y bleidlais ar gyfer pob etholiad ddatgan bod y bleidlais yn cael ei chyfuno gydag etholiad arall a nodi manylion yr etholiad arall hwnnw. Mae hyn yn ychwanegol i'r wybodaeth arferol, fel lleoliad y gorsafoedd pleidleisio a disgrifiad y pleidleiswyr â'r hawl i bleidleisio yno, y mae'n rhaid ei chynnwys ar hysbysiad y bleidlais.

Cardiau pleidleisio

5.2 Cyflwyno cardiau pleidleisio yw cyfrifoldeb pob Swyddog Canlyniadau, er y gellir cyfuno cardiau pleidleisio os yw'r Swyddogion Canlyniadau yn cytuno ar hynny.[8] Lle y ceir cytundeb, mae'r cyfrifoldeb yn perthyn i'r prif Swyddog Canlyniadau. Lle y cyflwynir cardiau pleidleisio cyfunol, rhaid darparu gwybodaeth am y ddau etholiad yn glir yn datgan y meini prawf cymhwysedd a phwy all bleidleisio mewn etholiadau.

Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio

5.3 Rhaid gosod hysbysiad yn rhoi canllawiau i bleidleiswyr y tu mewn a'r tu allan i bob gorsaf bleidleisio. Rhaid addasu'r ffurflen hon i gynnwys gwybodaeth am yr holl etholiadau sy'n cael eu cynnal.

5.4 Yn ogystal â'r hysbysiad canllawiau i bleidleiswyr y cyfeiriwyd ato uchod, rhaid gosod hysbysiad hefyd ym mhob both pleidleisio, ac eto mae'n rhaid addasu hwn i gynnwys gwybodaeth am yr holl etholiadau sy'n cael eu cynnal.

Blychau pleidleisio

5.5 Gellir defnyddio'r un blwch pleidleisio ar gyfer y ddau neu bob etholiad. Os defnyddir yr un blwch pleidleisio ar gyfer yr holl etholiadau ac yr ystyrir mewn unrhyw orsaf bleidleisio efallai na fydd un blwch pleidleisio yn ddigonol o feddwl am y niferoedd papurau pleidleisio a ragwelir, gellir defnyddio dau neu fwy. Yn yr amgylchiadau hyn, **rhaid selio pob blwch pleidleisio cyn i'r pleidleisiau ddechrau.** Nid oes darpariaeth yn y rheolau ar gyfer ychwanegu blychau pleidleisio pellach ar ôl i'r pleidleisiau agor, felly sicrhewch fod blychau digonol wedi cael eu darparu.

5.6 Os penderfynir defnyddio blychau pleidleisio ar wahân ar gyfer pob etholiad, dylid marcio pob blwch gyda'r etholiad y bydd yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer fel y dangosir ar y papur pleidleisio, a rhaid cael y geiriau 'Gosodwch y papurau pleidleisio lliw **[lliw y papur pleidleisio]** yma'.

[8] Paragraff 6, Atodlen 2, RPR 2004; Rheoliad 98(4), RPR (yr Alban) 1986.

Lle y cyfunir etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn yr Alban gydag etholiad arall, defnyddir yr un blwch pleidleisio ar gyfer y ddau etholiad.[9]

[9] Rheoliad 29(A), PER, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 98(5), Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 1986

6 Y Bleidlais

Marcio'r gofrestr

6.1 Gellir defnyddio'r un gofrestr etholwyr yn yr orsaf bleidleisio ar gyfer y ddau etholiad.

6.2 Lle mae'r etholfraint ar gyfer yr etholiadau yr un peth, h.y. mae etholwyr yn gymwys i bleidleisio yn y ddau etholiad, gellir gosod un marc yn erbyn y cofnod perthnasol yn y gofrestr i gadarnhau bod y ddau bapur pleidleisio wedi cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, lle mae etholwr yn penderfynu peidio â chymryd y ddau bapur pleidleisio, bydd angen marcio'r gofrestr i nodi'r ornest y cymerwyd y papur pleidleisio ar ei chyfer.

6.3 Un rheswm dros wneud hyn yw y gallai etholwr ymweld â'r orsaf bleidleisio yn gynnar yn ystod y dydd, penderfynu ei fod am bleidleisio mewn un etholiad yn unig, a gofyn am y papur pleidleisio ar gyfer y bleidlais honno yn unig, ond wedyn efallai yn newid ei feddwl, a dychwelyd yn hwyrach yn y dydd a gofyn am y papur pleidleisio ar gyfer yr etholiad arall. Pe byddai'r un marc yn cael ei roi yn ymyl cofnod pob etholwr, ni fyddai'r uchod yn bosib oherwydd byddai cofrestr yr orsaf bleidleisio yn dangos bod yr etholwr wedi pleidleisio eisoes yn yr holl etholiadau.

6.4 Lle mae'r etholfraint yn wahanol, e.e. mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU wedi'i gyfuno ag etholiad llywodraeth leol, ac nad yw'r holl etholwyr yn gymwys i bleidleisio yn y ddau etholiad, bydd y gofrestr yn nodi'r etholwyr hynny sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad lleol yn unig a dylid, felly, ei marcio'n briodol.

6.5 Yn ogystal â'r un gofrestr etholwyr (a hysbysiadau am addasiadau i'r gofrestr o ganlyniad i gywiro gwallau clercyddol) yn cael ei defnyddio mewn etholiad cyfunol, mae hefyd yn ganiataol defnyddio'r un rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu, y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion a'r rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd.

Rhestri rhifau cyfatebol

6.6 Rhaid i Swyddogion Canlyniadau baratoi rhestr yn cynnwys rhifau a marciau dynodi unigryw eraill yr holl bapurau pleidleisio i'w cyflwyno ganddynt. Mae'r rhestr rhifau cyfatebol wedi'i rhagnodi, ond yn achos etholiadau cyfunol gallai Swyddogion Canlyniadau ddymuno defnyddio ffurflen i'r un diben.

6.7 Bydd angen ystyried rheoli marcio'r rhestr rhifau cyfatebol yn yr orsaf bleidleisio lle y cyfunir dau neu fwy o etholiadau yn ofalus, yn enwedig gan y gallai etholwyr ddewis peidio â derbyn papurau pleidleisio ar gyfer y ddau etholiad, neu nad oes hawl ganddynt eu derbyn. Mae enghraifft o restr rhifau cyfatebol wedi'i chynnwys yn yr Atodiadau ffurflenni yn rheolau'r etholiad perthnasol.

Marc swyddogol ar bapurau pleidleisio

6.8 Er nad oes sôn am y marc swyddogol yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pleidleisiau cyfunol, does dim byd i awgrymu na ellir defnyddio'r un marc swyddogol i ddilysu'r holl bapurau pleidleisio waeth bynnag yr etholiad. Yr unig rybudd fyddai ynghylch marciau swyddogol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Ni ddylai'r un marc fod wedi'i ddefnyddio yn ystod y saith mlynedd blaenorol ar gyfer yr un etholaeth mewn etholiad Seneddol y DU, Senedd yr Alban neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu yn ystod y pum mlynedd blaenorol ar gyfer etholiad Senedd Ewrop neu lywodraeth leol.

6.9 Wrth wneud penderfyniad am y marc swyddogol, mae'n bwysig sefydlu bod y marc i'w ddefnyddio yn effeithiol fel dyfais ddiogeledd. Ar ôl iddo gael ei gymhwyso i'r broses gynhyrchu, bydd yr argraffydd yn cynhyrchu papurau pleidleisio 'byw' y mae'n rhaid eu diogelu bob amser, naill ai yn eiddo'r argraffydd neu yn llety'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), er mwyn sicrhau hygrededd yr etholiad.

Dychwelyd pleidleisiau drwy'r post i orsafoedd pleidleisio

6.10 Gall etholwyr sy'n dewis pleidleisio drwy'r post roi eu pleidleisiau i mewn yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio, os mai dyna eu dymuniad.

6.11 Os bydd etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn cael ei gyfuno ag etholiad llywodraeth leol a bod cyflwyno a derbyn pleidleisiau drwy'r post yn cael eu cyfuno, gellir dosbarthu pleidleisiau drwy'r post i'r gorsafoedd pleidleisio hynny yn y ward neu'r adran briodol yn unig.

6.12 Os, fodd bynnag, nad yw'r ffiniau Seneddol a'r ffiniau llywodraeth leol yn cyd-ffinio, yna mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'r Swyddog Canlyniadau perthnasol ar gyfer y ddau etholiad gytuno ar weithdrefn ar gyfer agor, dilysu a chludo'r papurau pleidleisio ar gyfer eu hetholiadau perthnasol.

Cau'r bleidlais

6.13 Yn yr un modd â gyda phob pleidlais, ar ddiwedd y bleidlais rhaid i'r Swyddog Llywyddu greu pacedi o'r dogfennau amrywiol a ddefnyddiwyd yn y bleidlais. Fodd bynnag, gyda phleidleisiau cyfunol, bydd rhai eitemau a ddefnyddiwyd yn cwmpasu'r ddau etholiad tra y bydd rhai yn wahanol ar gyfer pob etholiad.

6.14 Rhaid i'r canlynol gael eu rhoi mewn pacedi ar wahân ar gyfer pob etholiad:

- y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r rhai a ddifethwyd
- y papurau pleidleisio a gyflwynwyd
- y tystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio

6.15 Rhaid i'r canlynol gael eu gosod mewn pacedi hefyd, ond dim ond un o bob un o'r rhain sydd eu hangen i gwmpasu'r ddau etholiad:

- y gofrestr a farciwyd (yn cynnwys unrhyw gopïau a farciwyd o hysbysiadau o newidiadau)
- y rhestr(i) rhifau cyfatebol
- y rhestr o bapurau pleidleisio a gyflwynwyd
- y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- datganiadau cymdeithion pobl ag anableddau
- y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan y Swyddog Llywyddu

Gweler Rhan DD, 'Ar ôl cyhoeddi'r canlyniad' am fwy o wybodaeth ar gadw, storio ac archwilio.

6.16 Rhaid dychwelyd pob un o'r uchod at y prif Swyddog Canlyniadau ynghyd â'r blwch(blychau) pleidleisio a chyfrif papurau pleidleisio ar wahân ar gyfer pob etholiad.

7 Y cyfrif ac ar ôl y cyfrif

Presenoldeb asiantau cyfrif

7.1 Mewn etholiad cyfunol, mae hawl gan yr holl asiantau cyfrif a benodwyd ar gyfer y ddau etholiad yr hawl i fod yn bresennol yn ystod gwahanu'r pleidleisiau a dilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio.[10] Ar ôl i'r cyfrifon papurau pleidleisio gael eu dilysu, fodd bynnag, dim ond yr asiantau cyfrif a benodwyd ar gyfer y prif etholiad a all fod yn bresennol yn ystod cyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr etholiad hwnnw. Yn yr un modd, dim ond yr asiantau cyfrif hynny a benodwyd ar gyfer cyfrif pleidleisiau yr etholiad eilaidd a all fod yn bresennol yn y gweithrediadau hynny.

Mewn etholiadau cyfunol yn yr Alban, dim ond yr asiantau cyfrif ar gyfer y prif etholiad sydd â'r hawl i fod yn bresennol adeg dilysu blychau pleidleisio ar gyfer y ddau neu bob un o'r etholiadau, ond lle mae gofod yn caniatáu, dylid ystyried mynediad ehangach i gefnogi tryloywder y cyfrif.[11]

Y weithdrefn ddilysu a'r cyfrif

7.2 Lle y penderfynwyd defnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer pob gornest, wrth i'r blychau pleidleisio gael eu derbyn o orsafoedd pleidleisio rhaid i'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer y prif etholiad:[12]

- agor y blychau pleidleisio, gwahanu'r papurau ar gyfer y ddau etholiad a chyfrif nifer y papurau pleidleisio ar gyfer pob un

- dilysu pob cyfrif papur pleidleisio

- os cyfunwyd cyflwyno a derbyn pleidleisiau drwy'r post, cyfrwch y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd yn gywir, gwahanwch a chyfrif hwy ar gyfer pob etholiad a chofnodi nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a gyfrwyd ar gyfer pob etholiad

- pacio'r papurau pleidleisio ar gyfer yr etholiad eilaidd a'u trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am eu cyfrif, ynghyd â'r cyfrifon papurau pleidleisio perthnasol a'r datganiad ynghylch dilysu'r papurau pleidleisio hynny

- cymysgu papurau pleidleisio'r prif etholiad o wahanol flychau pleidleisio a'r pleidleisiau drwy'r post ac yna cyfri'r pleidleisiau yn y ffordd arferol

[10] Rheol 22, Atodlen 2, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2004.
[11] Rheoliad 98(18), Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 1986; Paragraff 17, Atodlen 2, Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban 2007.
[12] Rheol 22, Atodlen 2, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2004.

7.3 Lle y penderfynir defnyddio dau flwch pleidleisio, un ar gyfer pob gornest, wrth i'r blychau pleidleisio gael eu derbyn o orsafoedd pleidleisio rhaid i'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer y prif etholiad:

- agor y blychau pleidleisio ar gyfer pob gornest, yn cynnwys y blychau pleidleisio drwy'r post
- dilysu pob blwch pleidleisio
- dilysu pob cyfrif papur pleidleisio ar gyfer pob gornest
- ail-selio blychau pleidleisio'r etholiad eilaidd a'u trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am eu cyfrif
- cymysgu papurau pleidleisio'r prif etholiad o wahanol flychau pleidleisio a'r pleidleisiau drwy'r post ac yna cyfri'r pleidleisiau yn y ffordd arferol

7.4 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am yr etholiad eilaidd, wedi derbyn yr eitemau a restrwyd uchod:

- agor y llestri sy'n cynnwys y papurau pleidleisio
- os na chyfunwyd cyflwyno a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, cyfrwch y pleidleisiau drwy'r post hynny sydd wedi'u dychwelyd yn gywir a chofnodi'r rhifau
- cymysgu'r papurau pleidleisio drwy'r post â'r holl bapurau pleidleisio eraill a chyfri'r pleidleisiau yn y ffordd arferol

Marwolaeth ymgeisydd

7.5 Mae'r math o weithdrefn i'w dilyn pan fydd ymgeisydd yn marw yn dibynnu ar fath yr etholiad a statws yr ymgeisydd.

7.6 Mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, os bydd ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig yn marw, dylid dirymu neu roi'r gorau i'r bleidlais ar gyfer yr etholiad hwnnw. Fodd bynnag, dylai unrhyw etholiad arall yr oedd i'w gyfuno â'r bleidlais a ddirymwyd neu y rhoddwyd y gorau iddi barhau.

7.7 Os bydd ymgeisydd Seneddol y DU sy'n sefyll naill ai fel 'Annibynnol' neu heb ddisgrifiad yn marw, ni fydd yr etholiad Seneddol y DU yn cael ei ddirymu ac ni roddir y gorau iddo, ac felly dylai'r etholiad cyfunol barhau.

7.8 Ym mhob achos arall, os yw ymgeisydd yn y naill neu'r llall neu unrhyw un o'r etholiadau cyfunol yn marw, rhoddir y gorau i'r etholiad yr effeithiwyd arno gan farwolaeth ymgeisydd neu fe'i dirymir fel y bo'n briodol, ond ni fydd ei farwolaeth yn effeithio ar yr etholiadau eraill, y byddant yn parhau.

Treuliau

7.9 Lle y cyfunir pleidleisiau, rhaid i gostau cynnal y pleidleisiau cyfunol (ac eithrio unrhyw gost y gellir ei briodoli'n amlwg i un o'r etholiadau) ac unrhyw gost a briodolir i'w cyfuno gael eu rhannu'n gyfartal rhwng yr etholiadau.[13] Byddai'r costau hyn yn cynnwys, er enghraifft y taliadau i staff gorsafoedd pleidleisio ac, os y'u cyfunir, costau cyflwyno a derbyn pleidleisiau drwy'r post a chynhyrchu a chyflwyno cardiau pleidleisio.

7.10 O safbwynt y dilysu a'r cyfrif, mae gwahanu'r papurau pleidleisio yn amlwg yn swyddogaeth gyfunol a dylai'r gost gael ei ddosrannu'n gyfartal rhwng yr etholiadau. Fodd bynnag, dylid dyrannu costau dilysu cyfrifon y papurau pleidleisio a chyfrif y papurau pleidleisio i bob etholiad unigol. Dylid mabwysiadu'r egwyddor hon drwy gydol y broses dyrannu costau.

7.11 Gellir cael cyngor pellach ar ddosrannu costau gan y Weinidogaeth Gyfiawnder neu Swyddfa'r Alban.

[13] Adran 15(4), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.